

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r holl weithgareddau a all fod yn ofynnol i gwmpo coed bach gan ddefnyddio cyfarpar wedi'i reoli â llaw i fodloni gofynion cwmpo, ynghyd â'r gofynion a'r cyfrifoldebau craidd.

Gallai gweithgareddau gynnwys rhai neu'r cyfan o'r canlynol:

- cwmpo coed bach gan ddefnyddio llif gadwyn – diffinnir bod coeden fechan o dan 380mm (15in) ar uchder cwmpo.
- tynnu coed bach sydd wedi disgyn i goed eraill i lawr
- cwmpo coed bach â chymorth

Gallech fod yn gweithio yn unol â manyleb a roddwyd sy'n diffinio'r dulliau i'w defnyddio, ond bydd disgwyl i chi benderfynu sut i gyflawni'r dulliau hyn ar y safle.

Bydd y dechneg a'r cyfarpar cwmpo sy'n ofynnol yn briodol i rywogaeth y goeden, ei maint, ei phwysau, ei chyflwr, sut mae'n gwyro a'i safle, ynghyd â chyfrif am amodau'r dirwedd a'r tywydd.

Bydd angen i chi ystyried unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar y gwaith, e.e. safleoedd dynodedig, presenoldeb strwythurau rhestredig, bywyd gwylt, rhywogaethau estron goresgynnol neu rywogaethau gwarchoddedig, ac ati.

Mae'r safon hon yn ymwneud â choed conifferaidd a llydanddail, coed sy'n unionsyth, coed sydd â'u pwysau am ymlaen, coed sydd â'u pwysau am yn ôl, cyfeiriad cwmpo a roddwyd, ynghyd â choed sydd wedi disgyn i goed eraill.

Mae'n ofynnol i chi osgoi neu leihau difrod i, neu darfu ar, yr ardal gyfagos, gan gynnwys coed, llystyfiant arall, bywyd gwylt a chynefinoedd, neu i unrhyw strwythurau, ffensys, llwybrau, arwyddion, ffosydd/dyfrffyrdd neu ddraeniau, ac i sicrhau nad yw eich gwaith yn peri risg i ddefnyddwyr eraill y safle.

Wrth weithio gyda chyfarpar a pheiriannau, mae'n rhaid eich bod wedi'ch hyfforddi'n briodol a dylech ddal ardystiad cyfredol, lle bo angen, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i bob gwaith coed gael ei gyflawni gan berson hyfforddedig a chymwys, sydd â phrofiad perthnasol o'r dasg gwmpo a gyflawnir ac sy'n cael ei oruchwylio'n

briodol, lle bo angen. Dylid caniatáu amser i atgyfnerthu dysgu ac ennill profiad rhwng defnyddio gwahanol dechnegau cwmpo a rhwng cwmpo coed o wahanol faint.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau'r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

Gall disgyn o goed neu gael eich taro gan goed, rhannau o goed, canghennau sy'n disgyn neu wrthrychau eraill sy'n disgyn ladd neu anafu gweithwyr ar safle neu aelodau'r cyhoedd yn ddifrifol.

Cadarnhewch:

- fod gosodiad a threfn yr ardal weithio yn amddiffyn gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd rhag risg gwrthrychau sy'n disgyn
- bod parthau risg yn cael eu sefydlu a bod pobl yn cael eu hatal rhag mynediad i'r parthau
- bod parthau risg wedi'u marcio, eu harwyddo a'u gwarchod yn glir, lle y bo'n ymarferol yn rhesymol
- bod dulliau cyfathrebu rhwng yr holl weithwyr ar safle yn gadarn ac yn effeithiol

Gall fod angen adnoddau ychwanegol ar safle, fel arolygwyr, i helpu rheoli unrhyw risg sy'n gysylltiedig petai rhywun o bosibl yn cael mynediad i'r safle gweithio.

Mae canllawiau'r diwydiant ar gwmpo coed a'r gofynion am atgyfnerthu dysgu ar gael ar wefan FISA. <https://ukfisa.com/>.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Gofynion a chyfrifoldebau craidd

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni'r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. gwirio unrhyw ofynion statudol a allai fod ar waith a all atal neu osod amodau ar y gwaith i'w gyflawni a chadarnhau bod pob caniatâd a thrwydded ofynnol wedi'i sicrhau
3. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
4. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith sydd i'w gyflawni, cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd, gan wirio a chadarnhau canfyddiadau unrhyw asesiadau risg presennol
5. cadarnhau bod pob gwasanaeth tanddaearol ac uwchben fel nwy, dŵr, carthffosiaeth, trydan a chyfathrebu wedi'u nodi cyn bod y cwmpo'n dechrau
6. cadarnhau bod camau rheoli digonol wedi'u rhoi ar waith, bod parthau risg a llwybrau dianc wedi'u sefydlu a'u marcio, a bod cynllunio a gweithdrefnau brys sy'n berthnasol i'r safle wedi'u sefydlu a'u cofnodi
7. dewis y dulliau gweithio mwyaf diogel, gan ddefnyddio dulliau mecanyddol lle bo hynny'n fwy diogel, yn unol â'r risgiau a aseswyd a gweithdrefnau sefydliadol, a chynllunio gwaith yn unol â hynny
8. cynllunio gwaith i leihau difrod andwyol a llygredd gwasgaredig
9. cadarnhau bod hyfforddiant, profiad ac ardystiad perthnasol yn eu lle i ymgymryd â'r gwaith sydd i'w gyflawni, a chydabod y cyfyngiadau ar eich cymhwysedd chi
10. defnyddio dulliau priodol i gyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr eraill ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r gwaith, neu y mae'r gwaith yn effeithio arnynt, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
11. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i'w gyflawni yn cael ei wisgo drwy'r amser
12. dewis, paratoi, defnyddio, gwneud gwaith cynnal a chadw'r gweithredwr a storio'r llyfoedd cadwyn a'r offer a chyfarpar arall sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith yn ddiogel, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
13. cadarnhau bod yr holl gyfarpar wedi cael ei wirio, ei brofi, lle bo angen a'i fod yn addas at ei ddiben, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
14. cynnal diogelwch a diogeledd offer, cyfarpar a thanwydd (lle bo angen) ar y safle

15. cyflawni'r gwaith gofynnol yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd a gweithdrefnau sefydliadol

16. lleihau difrod i'r safle a'r ardal gyfagos, neu darfu arnynt, wrth wneud y gwaith hwn a chadarnhau bod y safle'n cael ei adael mewn cyflwr diogel a thaclus

17. gweithredu agweddau arfer gorau at gynaliadwyedd sy'n briodol i'r gwaith sy'n cael ei gyflawni

18. delio'n effeithiol â phroblemau sy'n codi o fewn cwmpas a chyfyngiadau eich cyfrifoldebau eich hun a rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

19. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau sefydliadol perthnasol

Cwmpo coed bach

1. nodi coed i'w cwmpo i benderfynu ar y gofynion cwmpo yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarparwyd

2. dewis dull cwmpo cydnabyddedig a phenderfynu ar y cyfeiriad cwmpo yn briodol i rywogaeth y goeden, ei maint, ei uchder, ei phwysau, ei chyflwr, ei gogwydd a'i safle ac yn unol â chanfyddiadau'r asesiad risg, ynghyd â chyfrif am y dirwedd ac amodau'r tywydd

3. ystyried effaith clefydau, diffygion a dirywiad ar y broses gwmpo a chael cyngor lle nad ydych yn sicr

4. nodi coed y gallai eu cwmpo fod yn anodd neu'n beryglus a'r tu hwnt i gyfyngiadau eich gallu, a rhoi gwybod am y rhain yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

5. paratoi'r safle ar gyfer cwmpo trwy wirio bod yr ardal weithio uniongyrchol wrth fôn y goeden yn glir, gan waredu rhwystrau yng nghyfeiriad y cwmpo a gwirio bod y llwybr dianc yn glir

6. paratoi'r goeden i'w chwmpo, yn briodol i faint y goeden, ei chyflwr a chanfyddiadau'r asesiad risg

7. cymryd y rhagofalon priodol wrth gwmpo mewn ardaloedd gerllaw rheilffyrdd, ffyrdd, llwybrau ac ardaloedd â mynediad i'r cyhoedd, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

8. gwneud gwiriadau cyn-cychwyn a gosodiad y llif gadwyn i'w defnyddio

9. cwmpo coed bach yn ddiogel i gyfeiriad y penderfynwyd arno ymlaen llaw, gan ddefnyddio dulliau cwmpo cydnabyddedig, a chymhorthion cwmpo, lle bo angen, fel y bo'n briodol i faint, ffurf, wyneb-wedd a chyflwr y goeden, a'r dechneg gwmpo a ddewiswyd, yn unol â gofynion cwmpo a gweithdrefnau sefydliadol

10. gwirio bod safle a chyflwr y goeden sydd wedi'i chwmpo yn ddiogel ac yn addas ar gyfer gweithrediadau dilynol

Tynnu coed bach sydd wedi disgyn i goed eraill i lawr

1. dewis y dull tynnu i lawr sy'n berthnasol i faint, ffurf a chyflwr y goeden
2. paratoi coed trwy dynnu rhan neu'r cyfan o'r colfach, fel y bo'n briodol i faint y goeden, ei chyflwr a'r dull tynnu i lawr
3. ffurfweddu cyfarpar tynnu i lawr yn ddiogel ac yn effeithiol, lle bo gofyn
4. tynnu coed bach sydd wedi disgyn i goed eraill i lawr gan ddefnyddio offer neu gyfarpar sy'n briodol i faint y goeden, ei chyflwr a'r dull tynnu i lawr

Cwmpo coed bach â chymorth

1. amcangyfrif y llwyth a dewis cyfarpar tynnu priodol ar gyfer y llwyth
2. dewis cyfeiriad cwmpo yn briodol i ffurf y goeden ac amodau'r safle
3. gosod y cyfarpar tynnu yn unol â'r asesiad risg penodol i sicrhau diogelwch yr holl weithredwyr sy'n ymwneud â'r gwaith, yn unol â chanllawiau'r diwydiant
4. dewis a defnyddio pwyntiau angori addas, sy'n ddigonol i'r llwyth disgwylidig, fel y bo angen
5. dewis a gosod pwyntiau clymu digonol o fewn y goeden i'w chwmpo i roi digon o sicrwydd a phwysau addas i'r system dynnu
6. sefydlu system gyfathrebu glir rhwng gweithredwr y llif gadwyn a gweithredwr y system dynnu a chadarnhau eu bod wedi cytuno ar signalau cyn dechrau'r broses gwmpo a winsio
7. lle y defnyddir arolygwr/arwyddwr, cadarnhau eu bod wedi'u hyfforddi a'u bod yn gymwys i gyflawni'r dasg a'u bod y tu allan i'r parth risg diffiniedig
8. sicrhau tensiwn y system dynnu ymlaen llaw i sicrhau bod pob rhan yn gweithio
9. gwneud toriadau cwmpo fel y bo'n briodol i'r goeden a'r bar llithro, gan ddefnyddio offer cymorth (lletemau), fel y bo'n briodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gofynion a chyfrifoldebau craidd

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith gofynnol
2. sut i nodi peryglon ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith i'w wneud a phwysigrwydd asesiad risg penodol i safle a chamau rheoli sy'n briodol i'ch maes gwaith
3. pwysigrwydd gwirio am bresenoldeb gwasanaethau tanddaearol ac uwchben, fel nwy, dŵr, carthffosiaeth, trydan a chyfathrebu cyn bod y cwmpo'n dechrau, sut gellir gwneud hyn a'r camau i'w cymryd os byddant yn cael eu darganfod
4. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
5. y cynllunio a'r gweithdrefnau brys sy'n berthnasol i'r safle, canllawiau'r diwydiant ar barthau risg a chliriadau diogel rhag dargludyddion trydan uwchben, a beth i'w wneud os bydd cysylltiad â llinellau pŵer
6. pwysigrwydd rheoli parthau risg, y defnydd cywir o arwyddion rhybudd a rhwystrau i hysbysu ac amddiffyn pobl eraill tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo, a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli traffig dros dro, lle bydd angen
7. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer, safonau a chanllawiau'r diwydiant, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol, moeseg busnes a moeseg proffesiynol presennol sy'n berthnasol i'ch maes gwaith ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
8. gofynion cyfreithiol, y diwydiant a sefydliadol am hyfforddiant, profiad ac ardystiad i wneud y gweithgareddau gwaith gofynnol a phwysigrwydd cydnabod eich cyfyngiadau a pheidio ag ymgymryd â gwaith sydd y tu hwnt i lefel eich cymhwysedd
9. yr offer, y cyfarpar a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith a sut i baratoi, defnyddio, gwneud gwaith cynnal a chadw'r gweithredwr a storio'r rhain yn ddiogel, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydliadol
10. y gofynion cyfreithiol am wirio a phrofi cyfarpar a pham mae'n bwysig cynnal a chadw'r holl gyfarpar i safon uchel
11. technoleg a ddefnyddir yn eich maes gwaith a sut i'w defnyddio
12. pam mae'n bwysig cyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr eraill ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r gwaith, neu y mae'r gwaith yn effeithio arnynt, a'r dulliau cyfathrebu y dylid eu defnyddio
13. effaith bosibl y gwaith ar y safle a'r ardal gyfagos a sut gellir lleihau'r effaith hon
14. eich cyfrifoldeb chi a chyfrifoldeb y sefydliad am amddiffyn yr amgylchedd a

gweithio'n gynaliadwy

15. pwysigrwydd gwirio bod y gwaith sydd wedi'i gwblhau yn bodloni gofynion, yn unol â'r wybodaeth a ddarperir

16. y problemau a all godi wrth gwmpo coed, y camau i'w cymryd a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys

17. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd

18. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

Cwmpo coed bach

1. sut i nodi pa goed y mae angen eu cwmpo yn ôl rhywogaeth, lleoliad, cyflwr a marciau

2. nodweddion pren y coed sy'n cael eu cwmpo a sut gall hyn effeithio ar eu hymateb

3. sut i benderfynu ar y dull cwmpo a'r cyfeiriad cwmpo ar gyfer gwahanol goed a beth mae angen ei ystyried

4. goblygiadau tirwedd, amodau'r tir, y tymor, y tywydd a chyflwr y coed i gwmpo coed bach

5. sut i adnabod arwyddion clefyd, diffygion a dirywiad mewn coed, y risgiau y gall hyn ei achosi a sut i addasu dulliau cwmpo yn unol â hynny

6. sut i adnabod pan fydd coed yn anodd eu cwmpo a bydd angen technegau arbenigol, a'r camau i'w cymryd

7. manteision gosod a defnyddio meinciau cwmpo naturiol, matiau tocion a chymorth tebyg cyn cwmpo

8. y technegau sy'n ofynnol i gwmpo gwahanol goed bach, gan gynnwys y dulliau cwmpo cydnabyddedig, gan gynnwys defnyddio toriadau tyllu a chymhorthion cwmpo lle bo'r angen, fel y bo'n briodol i ffurf y goeden, ei hwynebbedd a'i chyflwr

9. sut a phryd i ddefnyddio cyfarpar ychwanegol i gynorthwyo â chwmpo coed bach a'r camau diogelu ychwanegol sy'n ofynnol

10. y camau diogelu ychwanegol i'w defnyddio wrth gwmpo gerllaw rheilffyrdd, ffyrdd, llwybrau ac ardaloedd â mynediad i'r cyhoedd

11. y manau peryglus wrth gwmpo coed a phwysigrwydd gwyllo'r goeden a'r ardal weithio trwy gydol y broses

Tynnu coed bach sydd wedi disgyn i goed eraill i lawr

1. pwysigrwydd gwyllo'r goeden sydd wedi disgyn i goeden arall a'r ardal weithio trwy gydol y broses tynnu i lawr

2. y dulliau tynnu i lawr ar gyfer amrywiaeth o goed â phwysau a diamedrau bach, gan

ddefnyddio'r offer llaw priodol

3. y dulliau tynnu i lawr ar gyfer coed bach sydd wedi disgyn i goed eraill, gan ddefnyddio winshis neu ddulliau â llaw neu ddulliau mecanyddol eraill
4. yr amrywiol fathau o winshis a chyfarpar cyfatebol a ddefnyddir i dynnu coed bach i lawr a'r dull gweithredu, gan gynnwys winshis llaw a winshis pŵer
5. y manau peryglus yn gysylltiedig â'r coed sydd wedi disgyn i goed eraill sy'n cael eu tynnu i lawr
6. defnyddio offer llaw, rhaffau tynnu a winshis i gynorthwyo â thocio/torri canghennau mawr oddi ar goed
7. y camau gweithredu priodol i'w cymryd os na ellir tynnu coeden sydd wedi disgyn i goeden arall i lawr

Cwmpo coed bach â chymorth

1. y cyfarpar ychwanegol sy'n ofynnol i gynorthwyo â chwmpo coed bach a sut caiff gwahanol fathau o offer tynnu eu cymhwyso a'u cyfyngiadau
2. sut i amcangyfrif llwyth y goeden a phenderfynu ar y cyfarpar tynnu y mae ei angen
3. y technegau a ddefnyddir i osod system dynnu i gwmpo coeden â chymorth yn ddiogel, sy'n ddigonol ar gyfer llwyth disgwylidig y goeden sy'n cael ei chwmpo
4. pwysigrwydd cyfathrebu clir wrth gyflawni gweithrediadau cwmpo â chymorth a'r dulliau cyfathrebu sydd ar gael pan na ellir cynnal llinell olwg glir
5. pwysigrwydd cytuno ar y signalau i'w defnyddio cyn dechrau ar y broses gwmpo a winsio
6. yr angen am dynnu yn erbyn wrth weithredu mewn safleoedd cyfyngedig neu ar safleoedd â llethrau serth
7. yr angen am ddewis cyfeiriad cwmpo yn gywir a phwysigrwydd defnyddio technegau a thoriadau cwmpo priodol
8. budd cynnwys "cynheilydd cefn" (back-hold) yn y toriad cwmpo ar gyfer gweithredoedd cwmpo â chymorth
9. sut i asesu gofynion dal colfach gwahanol rywogaethau coed
10. sut i wneud toriadau i gynhyrchu dimensiynau colfach i fodloni gofynion gwahanol rywogaethau, cyflwr ac wynebbedd coed

Cwmpas/Ystod

Gallai gweithgareddau gynnwys rhai neu'r cyfan o'r canlynol:

- cwmpo coed bach gan ddefnyddio llif gadwyn – diffinnir bod coeden fach o dan 380mm (15in) ar uchder cwmpo.
- tynnu coed bach sydd wedi disgyn i goed eraill i lawr
- cwmpo coed bach â chymorth

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Dulliau cwmpo ar gyfer amrywiol goed bach, gan gynnwys:

- coed unionsyth/cytbwys
- coed sydd â'u pwysau am yn ôl
- coed sydd â'u pwysau am ymlaen
- coed bach heb eu brig a/neu ganghennau (polion)
- defnyddio barrau llithro sy'n fwy na diamedr y goeden
- defnyddio barrau llithro sy'n llai na diamedr y goeden
- coed anodd eu cwmpo (e.e. oherwydd eu gwerth masnachol uchel, eu cyflwr, eu hwynebbedd neu eu safle)
- coed sydd wedi disgyn i goed eraill

Geirfa

Mae cyfarpar ychwanegol yn cynnwys:

- winshis sy'n cael eu gweithredu â llaw neu yn fecanyddol
- rhaffau tynnu
- dyfeisiau ffrithiant
- ceblau
- strapiau
- ceblau dolen
- cyplynnau/cysylltwyr
- cipflociau pwli
- lletemau hydrolog neu fecanyddol
- dyfeisiau eraill fel clampiau estyniadau cebl

Cyfathrebu ag aelodau eraill y tîm:

- arwyddion llaw
- setiau radio dwyffordd
- ffonau symudol
- clustffonau

Arolygwr/arwyddwr – person hyfforddedig a chymwys sy'n rheoli symudiadau peiriannau, gweithdrefnau a phobl ar safle i sicrhau bod gweithgareddau gwaith yn cael eu cyflawni'n ddiogel.

Rhaid sefydlu hierarchaeth o reoliadau rhwng yr arolygwr/arwyddwr a gweithredwyr eraill i sicrhau bod signalau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw yn cael eu trosglwyddo a'u deall yn glir.

Mae offer llaw yn cynnwys:

- bar torri/lifer cwmpo
- gordd
- gefelau codi

Cwmpo coed bach gan ddefnyddio cyfarpar wedi'i reoli â llaw

- polion bachog
- bachau troi
- strapiau troi
- polion tynnu i lawr
- lletemau
- winsh llaw gyda dolen, cebl, pwlliau a strapiau

Gallai **gwybodaeth** sy'n ofynnol i gyflawni gweithgareddau gwaith gynnwys:

- lluniadau
- cynlluniau
- amserlenni
- manylebau
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- canllawiau'r gwneuthurwr
- gofynion y cwsmer
- gofynion sicrhau ansawdd
- safonau'r diwydiant (e.e. Safonau Prydeinig)
- cyfarwyddiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig
- canllawiau'r diwydiant (e.e. FISA)

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

Parth risg – fe'i gelwir hefyd yn Barth perygl a Pharth gwahardd. Dylid sefydlu'r parth risg cyn dechrau unrhyw waith coed. Fel arfer, bydd y parth yn cyfateb i ddwywaith uchder y goeden sydd i'w chwmpo, er bod angen ystyried ffactorau eraill hefyd.

Polion – coed y mae eu canghennau wedi'u torri i ffwrdd

Paratoi'r safle – gallai hyn gynnwys sefydlu mainc, mat tocion neu debyg

Paratoi'r goeden i'w chwmpo – a allai gynnwys tocio canghennau is, gwaredu llystyfiant dringo, bwtresi a rhwystrau eraill

System Weithio Ddiogel (SSoW) – dyma ddull gweithio sy'n rhoi mesurau rheoli ar waith sy'n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

Tirwedd:

- arwynebau caled
- arwynebau meddal
- arwynebau anwastad
- llethrau

Cwmpo coed bach gan ddefnyddio cyfarpar wedi'i reoli â llaw

Datblygwyd gan Lantra

Fersiwn rhif 3

Dyddiad cymeradwyo 30 Ebr 2024

Dyddiad Adolygu Dangosol 30 Ebr 2029

Dilysrwydd Ar hyn o bryd

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Lantra

RCU gwreiddiol LANTw20; LANTw23; LANTw25

Galwedigaethau perthnasol Coedyddiaeth a choedwigaeth

Cyfes/Set Gwaith coed

Geiriau Allweddol coed; cwmpo; llif gadwyn
